Gwasanaeth Democrataidd
Democratig Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cofnodion o gyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar **18 Gorffennaf 2014**
Ystafell Bwyllgor 1, Llangefni

**Presennol:** **Cyngor Gwynedd**
Cyng. John Brynmor Hughes
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. Gethin Glyn Williams
Cyng. Owain Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Ann Griffith
Cyng. Victor Hughes
Cyng. John Arwel Roberts
Cyng. Nicola Roberts
Cyng. Kenneth Hughes

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio & Amgylchedd (CG) |
| Nia Davies | Rheolwr – UPCC |
| Bob Thomas | Arweinydd Tîm Tai & Chymunedau - UPCC |
| Eirian Harris | Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC |

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwen Griffith (CG)
Cyng. John W Williams (CG)
Cyng. Lewis Davies (CSYM)
Cyng. Jeff Evans (CSYM)
Jim Woodcock (CSYM)

## 1) YMDDIHEURIADAU
Fel y nodwyd uchod.

## 2) DATGAN BUDDIANT PERSONOL
Cafwyd ddatganiad buddiant personol gan Cyng. John Pughe Roberts a Cyng. Gethin Glyn Williams ynglŷn â datblygiadau pŵer dwr. Hefyd, cafwyd datganiad gan Cyng. Ann Griffith a Cyng. Nicola Roberts oherwydd safiad Plaid Cymru yn ei faniffesto sydd yn gwrthwynebu datblygiadau tyrbinau gwynt.

## 3) MATERION BRYS/MATERION YCHWANEGOL

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys. Diolchodd Cyng. John Arwel Roberts i Cyng. John Wyn Williams am gadeirio'r cyfarfod Panel a gynhaliwyd ar 20 o Fehefin.

## 4) COFNODION

Cynigwyd a nodwyd fod cofnodion cyfarfod Panel 20 Mehefin, 2014 yn gywir.

## 5) ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL A PHOLISÏAU MANWL DRAFFT CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:

Cyflwynwyd adroddiad gan Bob Thomas yn amlinellu Polisi Strategol 5 a'r polisïau manwl sydd yn deillio o'r Polisïau Strategol.

**ATODIAD A: POLISI STRATEGOL 5 A'R POLISÏAU MANWL CYSYLLTIEDIG – ISADEILEDD A CHYFRANIADAU GAN DDATBLYGWYR**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bob Thomas yn amlinellu Polisi Strategol 5 a gafodd ei gyflwyno i'r Panel gynt ac yn cynnwys mân newidiadau. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys polisïau manwl sydd yn deillio o'r polisi strategol.

**Polisi Manwl – ISA/1 – Darpariaeth Isadeiledd**

Polisi manwl sydd yn gosod anghenion ar gyfer isadeiledd addas gyda datblygiadau a lle mae cyfraniadau eu hangen os yw isadeiledd sydd yn bodoli ddim yn addas i ddelio gyda datblygiadau ychwanegol.

**Pwyntiau a godwyd:**

- Codwyd pryderon ynglŷn a hyfywdra busnesau bychan lleol.
- Rhoddwyd esiampl lle cafwyd gais i diddymu C106, ac os fyddai'n llwyddiant, fuasai CIL yn cael ei weithredu?

**Ymateb swyddogion:**

- Bydd gwaith manwl yn cael ei wneud i sefydlu faint o isadeiledd sydd ei angen i gynnal y Cynllun ac i sefydlu beth fyddai effaith ar y farchnad o godi ardoll i gyfrannu at lenwi'r bwlch mewn isadeiledd.;
- Esboniwyd, lle mae'r angen, fuasai CIL yn cael ei weithredu yn ogystal a C106. Angen canllawiau i sefydlu perthynas rhwng CIL a'r datblygiad.

**Polisi Manwl – ISA/2 – Cyfleusterau Cymunedol**

Mae'r polisi yma yn gosod mecanwaith i gynnal a gwella cyfleusterau cymunedol ac osgoi colli cyfleusterau sydd yn bodoli.

Ni chafwyd sylwadau.

**Polisi Manwl – ISA/3 – Datblygiadau Addysg Bellach ac Uwch**

Mae'r polisi yma yn paratoi prawf dilyniannol, gyda blaenoriaeth i safle(oedd) campws presennol, ac ar gyfer safleoedd newydd neu estyniadau i gyfleusterau addysg bellach ac uwch presennol.

Ni chafwyd sylwadau.

**Polisi Manwl – ISA/4 – Diogelu Llecynnau Agored Presennol**

Mae'r polisi yma yn diogelu ac ehangu llecynnau agored fel a rhestrir yn NCT16. Fe wneith hefyd ganiatáu darpariaeth ychwanegol i'w wneud gan ddatblygwyr.

**Pwyntiau a godwyd:**

- Ymholwyd os fuasai'r polisi yn gwarchod meysydd chwarae ysgolion.
- Gofynnwyd beth yw diffiniad cymuned?
- Nodwyd y pwysigrwydd o warchod ardaloedd yma – yn y gorffennol fe adeiladwyd tai ar unrhyw safle gwag.

**Ymateb swyddogion:**

- O ran meysydd chwarae ysgolion, mae'n dibynnu os oes mynediad i'r maes chwarae ar ôl oriau ysgol. Byddai'r rhai sy'n ffurfio rhan o gyflenwad yr anheddle o lecynnau agored yn cael eu gwarchod o dan y polisi yma.
- Mae diffiniad 'Cymuned' yn dibynnu ar ei leoliad a maint y llecyn agored ond yn y mwyafrif o achosion yr anheddle fydd yn cael ei ddefnyddio i benderfynu os oes gormod o ddarpariaeth.

**Polisi Manwl: ISA/5 – Darpariaeth Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd**
Bydd y polisi yma yn sicrhau darpariaeth llecynnau agored ar gyfer datblygiadau tai newydd o 10 neu fwy o unedau, un ai ar y safle os yn bosib neu yn gyfagos i'r datblygiad. Dim ond mewn achosion lle mae'r darpariaeth yn ddigonol caiff y polisi ei lacio.

**Pwyntiau a godwyd:**

- Cyfeiriwyd at y posibilrwydd na fyddai gan y datblygwr reolaeth dros dir a fyddai ei angen i ddiwallu'r galw am fwy o ddarpariaeth.
- Mynegwyd pryder y gallai gweithredu'r Cyt 106 olygu derbyn taliadau isel.
- Awgrymwyd fod angen i gyfraniadau ariannol fod yn gysylltiedig â graddfa chwyddiant i ymdopi gyda datblygiadau sydd ddim yn cael eu gweithredu am amser hir.
- Mynegwyd pryderon ynglŷn a goblygiadau ariannol yn sgil taliadau sy'n ddyledus a'r broses o'u hadennill.

**Ymateb Swyddogion:**

- Ynglŷn a'r pwynt o ddiffyg tir, yna fuasai cyfraniad ariannol ei dderbyn.
- Ynglŷn â gweithredu'r Cyt 106 a derbyn taliad isel, nodwyd y pwynt yma ac fe gaiff ei ystyried.
- Ar hyn o bryn mae Cyt 106 yn cynnwys cymal am gysylltiad gyda graddfa chwyddiant er mwyn ymdopi gyda newid yn yr economi.
- Ynglŷn â adennill taliadau, mae Cyngor Gwynedd wedi ychwanegu ffi monitro o fewn holl C106 sydd yn cael ei ddefnyddio'n gysylltiedig a'r gwaith o i fonitro datblygiadau.

**ATODIAD B: PS16 – TECHNOLEG ADNEWYDDADWY**
Cyflwynwyd adroddiad gan Bob Thomas yn amlinellu Polisi Strategol 16 a gafwyd ei gyflwyno i'r Panel gynt gyda'r diwygiadau i'r Polisi Strategol â awgrymir. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys polisïau manwl sydd yn deillio o'r Polisi Strategol.

**Polisi Manwl: ADN/1 – Ynni Gwynt ar y Tir**
Mae gwaith archwilio wedi ei gwblhau sydd yn asesu sensitifrwydd a chapasiti tirwedd i gefnogi datblygiadau ynni gwynt ar y tir a cheir polisi wedi'i seilio ar categoreiddio tyrbinau gyda nifer helaeth o feini prawf.

**Pwyntiau a godwyd:**

- Gofynnwyd beth yw safiad Llywodraeth Cymru ar Ynni Gwynt at y Tir ac os y buasent yn cefnogi polisi a gyflwynwyd yn y CDLl ar y Cyd.
- Codwyd pwynt ynglŷn â pholisi'r Parc Cenedlaethol ar Ynni Gwynt ar y Tir, lle mae polisi'r Parc yn caniatáu tyrbinau mwy – sut mae hyn yn mynd i gael effaith ar ardaloedd cyfagos o fewn Ardal y CDLl ar y Cyd. Oherwydd y gwahaniaethau mewn maint â ganiateir fuasai hyn yn arwain i apêl am y penderfyniadau?
- Cafwyd ymholiad ynglŷn â diffiniad maint â restrir yn Tabl Teipoleg.
- Holwyd ynglŷn a ffermydd gwynt Ynys Môn gan eu bod yn dod i ddiwedd eu hoes. Sut mae'r polisi yma yn mynd i ddelio gyda' r posibilrwydd o ail-bweru safleoedd yma?
- Mynegwyd pryder ynglŷn â tyrbinau yn dod i ddiwedd eu hoes, - pwy sydd yn goddef y baich ariannol i'w datgymalu os nid yw'r cwmnïoedd gwreiddiol yn bodoli?
- Gofynnwyd am statws tir â ddefnyddiwyd ar gyfer datblygiadau tyrbinau – a ydyw'n cael ei gategoreiddio fel safle maes glas yntau safle tir llwyd?

**Ymateb Swyddogion:**

- Trwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun mae tystiolaeth yn angenrheidrwydd fel rhan o'r broses, felly os fuasai LlC yn herio'r polisi yma mi fydd angen tystiolaeth i gefnogi eu safiad.

- Nodir y pwynt a godwyd am bolisi'r Parc Cenedlaethol am  uchder tyrbinau ac fe fydd trafodaeth amdano gyda nhw.
- Esboniwyd y diffiniau a restrir yn y Tabl Teipoleg .  Mae'r polisi yn cydnabod rôl tyrbinau fel ffynhonnell o egni  adnewyddadwy, bydd ystyriaeth yn cael ei roi tuag at meini prawf sydd wedi eu rhestru yn ADN/1 – amcan y polisi yma i'w hwyluso y broses penderfyniadau cynllunio.
- Fe fydd y polisi yma yn weithredol pan fydd y Cynllun yn cael ei fabwysiadu.  Hyd at yr adeg hynny, mae polisïau presennol yn cael eu defnyddiol i ddelio gyda cheisiadau presennol. Fodd bynnag, caiff y tystiolaeth â gyflwynwyd i gefnogi'r Cynllun ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol.
- Yn y gorffennol mae bondiau wedi eu cynnwys o fewn C106, gan dderbyn taliad o flaen llaw: fe ellir defnyddio bondiau mewn achosion a ddisgrifir.
- O ran statws tir a ddefnyddiwyd i ddatblygu tyrbinau, os caiff y strwythurau, y seiliau ac ati eu tynnu ac os caiff y tir ei ddefnyddio fel tir amaethyddol yna ni fyddai'n cael ei ddisgrifio fel tir llwyd.

**Polisi Manwl: ADN/2 – Technoleg Ynni Adnewyddadwy Arall**

**Pwyntiau a godwyd:**

- Codwyd pwynt ynglŷn ag effaith datblygiadau ynni adnewyddadwy ar fioamrywiaeth ac  ecoleg  a sut i fesur yr effaith.

**Ymateb Swyddogion:**

- Ynglŷn ag effaith datblygiadau ynni adnewyddadwy, caiff agweddau penodol bioamrywiaeth ac ecoleg ystyriaeth a'u hasesu.  Hefyd, gofynnir am farn arbenigwyr yn y maes adeg ceisiadau unigol.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

Cyfarfod nesaf i'w gynnal ar y 30ain Gorffennaf, 2014, Ystafell Cynhadledd 1, swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn.

Derbyniodd y Panel wahoddiad gan yr Arolygaeth Cynllunio, sydd yn cynnig cynnal sesiwn i esbonio proses CDLl ac ateb unrhyw ymholiadau – amser a dyddiad i'w drefnu.